



Os fyddwch chi'n derbyn neges drwy Facebook yn holi "ai ti yw hwn/hon?"  
Peidiwch â chlicio ar y ddolen.

**Peidiwch â nodi eich rhif defnyddiwr na'ch cyfrinair ar gyfer Facebook!**



Os fyddwch chi'n clicio ar y ddolen, bydd yr hysbysiad Facebook ffug yn eich tywys i safleoedd lle bydd eich manylion yn cael eu casglu a'u defnyddio gan droseddwyr.

Mae defnyddwyr Facebook wedi bod yn derbyn neges sy'n honni bod yr anfonwr wedi dod o hyd i fideo neu ddelwedd o'r dioddefydd. Yna, mae'r neges yn arwain y defnyddiwr drwy gadwyn o wefannau sydd wedi'u heintio â sgrïptiau maleisus sy'n casglu manylion y dioddefydd. Gan ddibynnu ar ddyfais y dioddefydd, gall ei heintio â meddalwedd hysbysebu neu faleiswedd arall.

 Heddlu Police  
**DYFED-POWYS**

#### Sut i ddiogelu'ch hun yn erbyn gwe-rwydwy

- Defnyddiwch gyfrineiriau unigryw a chymhleth ar gyfer eich holl gyfrifon ar-lein. Mae [rheolwyr cyfrinair](#) yn eich helpu i gynhyrchu cyfrineiriau cryf ac yn eich hysbysu pan fyddwch chi'n aildefnyddio hen gyfrineiriau.
- Defnyddiwch ddilysu aml-factor lle bo'n bosibl.
- Byddwch yn ymwybodol o unrhyw negeseuon a anfonir atoch, hyd yn oed rhai gan eich cysylltiadau ar Facebook. Bydd ymosodiadau gwe-rwydo fel arfer yn defnyddio rhyw fath o [deilwra cymdeithasol](#) i'ch denu i glicio ar ddolenni maleisus neu lawrlwytho ffeiliau sydd wedi'u heintio.
- Cadwch lygad allan am unrhyw weithgarwch amheus ar eich cyfrif Facebook neu gyfrifon ar-lein eraill.